Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer Cymru Iachach: Cipolwg

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Pum Blaenoriaeth. Pum Datrysiad. Un llwybr clir tuag at Gymru iachach, decach a mwy llewyrchus.

Gall creu polisïau sydd â ffocws ar atal arwain at y canlynol:

Pobl iachach

Economi gryfach

GIG Cynaliadwy

Mae pob £1 a fuddsoddir mewn atal yn rhoi £14 i gymdeithas

Mae gwahaniaethau mewn iechyd y gellir eu hatal yn parhau i fod yn her i deuluoedd, yr economi a'r GIG. **Mae angen i ni oresgyn yr heriau iechyd y mae Cymru yn eu hwynebu:**

- **Mae 1 o bob 4 o blant** yn tyfu i fyny **mewn tlodi**
- **Mae 7.2 miliwn o ddiwrnodau yn cael eu colli** oherwydd absenoldeb salwch bob blwyddyn
- **Mae 18%** o gartrefi yn peri **risgiau iechyd**
- Disgwylir **50,000 yn fwy o achosion o ddiabetes** ymhen 10 mlynedd
- Bron i **£1 biliwn y flwyddyn – costau iechyd a chynhyrchiant** llygredd aer

Bwlch o 20 mlynedd
mewn disgwyliad oes iach i fenywod rhwng yr

3 gwaith yn fwy o farwolaethau y gellir eu hosgoi yn ein cymunedau

£322 miliwn
y flwyddyn **o gostau i ysbytai'r GIG** wedi'u sbarduno gan **anghydraddoldebau iechyd**

Mae'r bylchau hyn yn annheg a gellir eu hosgoi.

Archwiliwch ymhellach ar-lein:
https://icc.gig.cymru/eiriolaeth

Am drafodaeth bellach gyrrwch e-bost:
phw.advocacy@wales.nhs.uk

11/2025

5 blaenoriaeth i wneud gwahaniaeth. Ar gyfer bywydau hirach, iachach a Chymru decach a mwy llewyrchus.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Datrysiad: Sicrhau y gall pob teulu gael mynediad hawdd at gymorth blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar anghenion y teulu, nid daearyddiaeth

Hyd at **£16.80 am bob £1 a fuddsoddir** mewn cymorth blynyddoedd cynnar

Llesiant Ariannol

Datrysiad: Darparu cymorth cyflogaeth ac iechyd cyfun fel y gall pobl ddechrau gweithio, aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith

£9 am bob £1 a fuddsoddir mewn llesiant yn y gweithle

Mannau Iach Bob Dydd

Datrysiad: Cynyddu argaeledd cartrefi iach, fforddiadwy, cynnes a diogel, yn enwedig tai cymdeithasol.

£4 am bob £1 a fuddsoddir mewn gwella cynhesrwydd mewn cartrefi agored i niwed

Gofal wedi'i Deilwra i Anghenion Lleol

Datrysiad: Symud gwariant iechyd tuag at atal er mwyn creu gwasanaeth iechyd gwirioneddol ataliol sy'n trin y person cyfan

Hyd at £23.70 am bob £1 a fuddsoddir mewn cyngor ar weithgarwch corfforol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol

Planed Iach, Pobl Iach

Datrysiad: Buddsoddi mewn teithio llesol mwy diogel a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n ystyriol o'r hinsawdd

£5.62 am bob £1 a fuddsoddir mewn teithio llesol

Barn y cyhoedd yn cefnogi atal:

85%

yn dweud bod eu sefyllfa ariannol wedi effeithio ar eu hiechyd

78%

yn dweud bod eu cartrefi a'u cymunedau wedi llunio eu hiechyd

74%

yn dweud bod mynediad at natur a mannau awyr agored yn gwella eu hiechyd

80%

yn credu bod gan ofal sylfaenol rôl wrth leihau anghydraddoldebau iechyd

Gadewch i ni wneud atal yn sylfaen i iechyd yng Nghymru
Mae'n amser gweithredu nawr.

Archwiliwch ymhellach ar-lein:
https://icc.gig.cymru/eiriolaeth

Am drafodaeth bellach gyrrwch e-bost:
phw.advocacy@wales.nhs.uk

11/2025